Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei argraffu i gywiro gwallau yn O.S. 2003/3227 (Cy. 308), O.S. 2003/3246 (Cy. 321), O.S. 2007/2611 (Cy. 222), O.S. 2011/656 (Cy. 94), O.S. 2015/1844 (Cy. 272), O.S. 2021/77 (Cy. 20), O.S. 2023/1303 (Cy. 233), O.S. 2024/28 (Cy. 11), O.S. 2024/135 (Cy. 29) ac O.S. 2025/88 (Cy. 22) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 805 (Cy. 142)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

# ADDYSG, CYMRU

# ARBED YNNI, CYMRU

# BWYD, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# DŴR, CYMRU

Rheoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deg set o Reoliadau.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Rhannau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 2 a 3) yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003, yn y drefn honno. Mae rheoliadau 2 a 3 wedi eu gwneud o dan adrannau 52(3)(c) a (d) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 i gywiro gwall (cyfeiriad anghywir at reoliad) yn nhestun Cymraeg yr Atodlen i'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003 i hepgor paragraff 1A(a) o'r Atodlen i'r Rheoliadau hynny gan nad oes ei angen o ystyried paragraff 3 o'r Atodlen honno.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 4) yn diwygio Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae Rheoliadau 2007 yn addasu Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ("Deddf 1990"). Mae rheoliad 4 wedi ei wneud o dan adrannau 16(1)(f), 17(2), 26(1)(a), (2)(e) a (3) ac 48(1) o Ddeddf 1990.

Mae rheoliad 4(2) a (3) yn diwygio Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen i Reoliadau 2007 i egluro darpariaethau yn nhestun addasedig adrannau 10 a 32 o Ddeddf 1990.

Mae rheoliad 4(4) yn diwygio Rhan 3 o'r Atodlen i Reoliadau 2007 i gywiro gwall o ran rhifo'r darpariaethau.

Mae rheoliad 4(5) yn diwygio Rhan 4 o'r Atodlen i Reoliadau 2007 i ddarparu y gall unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad un o swyddogion awdurdodedig awdurdod gorfodi i gyflwyno hysbysiad gwella apelio i'r llys ynadon.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 5) yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"). Mae rheoliad 5 wedi ei wneud o dan adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau 2011 er mwyn cywiro cyfeiriadau at is-raniadau yn rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 6) yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"). Mae rheoliad 6 yn diwygio testun Cymraeg paragraff 40 o Atodlen 2 i Reoliadau 2015 i adlewyrchu diwygiadau a wnaed i destun Saesneg y paragraff hwnnw gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn 2023 (O.S.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

2023/424). Mae rheoliad 6 wedi ei wneud o dan adran 64(1) a (2)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 7) yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021"). Mae rheoliad 7 yn diwygio testun Cymraeg paragraff 1 o Atodlen 1A i Reoliadau 2021 i newid cyfeiriad anghywir at "ddeiliad" daliad glaswelltir cymhwysol i "feddiannydd" daliad glaswelltir cymhwysol. Mae rheoliad 7 wedi ei wneud o dan adran 92(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.

Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 8) yn diwygio testun Cymraeg rheoliad 8(2)(a) o Reoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023 i fewnosod geiriau coll. Mae rheoliad 8 wedi ei wneud o dan adrannau 105B(1) a 120A(2)(a) o Ddeddf Adeiladu 1984.

Mae Rhan 9 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 9) yn mewnosod diffiniad o "awdurdod priodol" yn Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024. Ystyr "awdurdod priodol" yw'r awdurdod cofrestru neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall a ragnodir. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cofrestru. Mae rheoliad 9 wedi ei wneud o dan adrannau 167A a 210(7)(c) o Ddeddf Addysg 2002.

Mae Rhan 10 o'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 10 i 12) yn diwygio Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024"). Mae rheoliadau 10 i 12 wedi eu gwneud o dan adrannau 11(6) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraffau 4(1)(d) ac (e) a 5 o Atodlen 2 iddi.

Mae rheoliad 11 yn diwygio rheoliad 2 o Reoliadau 2024 drwy amnewid y diffiniad o "corff gwasanaeth iechyd" i gynnwys y sail statudol y mae pob un o'r cyrff a bennir yn y diffiniad hwnnw wedi ei sefydlu arni, ac mae'n mewnosod diffiniad o "Bwrdd Gofal Integredig".

Mae rheoliad 12 yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2024 mewn dwy ffordd. Mae'n mewnosod cyfeiriadau at "corff gwasanaeth iechyd" ym mharagraff 4(5)(b) ac (c) o'r Atodlen honno. Mae hefyd yn diwygio paragraff 6(1)(a) o'r Atodlen honno i hepgor geiriau diangen gan fod "bwrdd iechyd lleol" yn derm diffiniedig.

Mae Rhan 11 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 13) yn diwygio Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025. Mae rheoliad 13 wedi ei wneud o dan adrannau 16(1)(a), (c), (e) ac (f), 18(1)(c) ac 48(1)(c) o Ddeddf 1990.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 13(2) yn cywiro'r diffiniad o "blawd" yn rheoliad 2 drwy roi term Cymraeg mwy priodol ar gyfer "meal" yn y testun Cymraeg yn lle'r term presennol.

Mae rheoliad 13(3) yn cywiro gwall yn y testun Cymraeg yn Atodlen 2 drwy roi'r term Cymraeg cyfatebol yn lle term Saesneg.

Mae rheoliad 13(4) yn cywiro gwallau yn Atodlen 3 drwy hepgor gair diangen yn y testun Saesneg a thrwy roi'r ymadrodd Cymraeg cywir ar gyfer "weight in weight" yn y testun Cymraeg yn lle'r ymadrodd presennol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei argraffu i gywiro gwallau yn O.S. 2003/3227 (Cy. 308), O.S. 2003/3246 (Cy. 321), O.S. 2007/2611 (Cy. 222), O.S. 2011/656 (Cy. 94), O.S. 2015/1844 (Cy. 272), O.S. 2021/77 (Cy. 20), O.S. 2023/1303 (Cy. 233), O.S. 2024/28 (Cy. 11), O.S. 2024/135 (Cy. 29) ac O.S. 2025/88 (Cy. 22) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

---

# 2025 Rhif 805 (Cy. 142)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## ADDYSG, CYMRU

## ARBED YNNI, CYMRU

## BWYD, CYMRU

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## DŴR, CYMRU

Rheoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Gorffennaf 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *9 Gorffennaf 2025* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2025* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# CYNNWYS

RHAN 1
Enwi a dod i rym

RHAN 2
Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003

RHAN 3
Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003

RHAN 4
Diwygio Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007

RHAN 5
Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011

RHAN 6
Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015

RHAN 7
Diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

RHAN 8
Diwygio Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023

RHAN 9
Diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024

RHAN 10
Diwygio Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024

RHAN 11
Diwygio Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau—

(a) a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 52(3)(c) a (d) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**);

(b) a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 16(1)(f), 17(2), 26(1)(a), (2)(e) a (3) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**3**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**4**).

Mewn perthynas â Rhan 4, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel sy'n ofynnol gan adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**5**).

Ymgynghorwyd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Ionawr 2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**6**);

---

(**1**) 2002 p. 32. Diwygiwyd adran 52(3)(c) gan O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 11(2). Diwygiwyd adran 210(7) gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2), adran 21(1) a (3)(c). *Gweler* adran 212(1) o Ddeddf Addysg 2002 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adrannau 16(1) ac 48(1) gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28), Atodlen 5, paragraff 8. Diwygiwyd adran 17(2) gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, Atodlen 5, paragraffau 8 a 12(b), a chan O.S. 2011/1043, erthyglau 3 a 6(2)(c). Diwygiwyd adran 26(3) gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, Atodlen 6.

(**4**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, fel y'u darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**5**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, Atodlen 5, paragraff 21.

(**6**) EUR 178/2002, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**);

(d) a roddir gan adran 64(1) a (2)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**3**);

(e) a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 92(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**4**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**5**);

(f) a roddir gan adrannau 105B(1) a 120A(2)(a) o Ddeddf Adeiladu 1984(**6**).

Ymgynghorwyd fel sy'n ofynnol gan adran 120C(1)(**7**) o Ddeddf Adeiladu 1984;

---

(**1**) 1990 p. 27. Diwygiwyd adran 15(1) gan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p. 53), adran 142(1).

(**2**) Darparodd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo, fod y swyddogaethau o dan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 i fod yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn rhydd rhag y gofyniad am gydsyniad y Trysorlys. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae paragraff 1 o Atodlen 3A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn gydredol ac yn rhydd rhag unrhyw ofyniad am gydsyniad y Trysorlys.

(**3**) 2014 dccc 4. *Gweler* adran 197(1) am y diffiniad o "rheoliadau".

(**4**) 1991 p. 57.

(**5**) Darparodd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo, fod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 92(1) wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran y rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ddalgylchoedd afon Dyfrdwy, afon Gwy ac afon Hafren. O ran y rhannau hynny o Gymru sydd o fewn y dalgylchoedd hynny, roedd y swyddogaethau o dan adran 92(1) i fod yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**6**) 1984 p. 55. Mewnosodwyd adrannau 105B a 120A gan adran 57 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (p. 30) a pharagraff 77 o Atodlen 5 iddi, yn y drefn honno. Mae adran 105B(1) yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i'r "appropriate national authority", sydd wedi ei ddiffinio yn adran 126 o Ddeddf Adeiladu 1984 fel Gweinidogion Cymru, o ran Cymru.

(**7**) Mewnosodwyd adran 120C gan baragraff 77 o Atodlen 5 i Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(g) a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 167A a 210(7)(c) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**);

(h) a roddir gan adrannau 11(6) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraffau 4(1)(d) ac (e) a 5 o Atodlen 2 iddi(**3**);

(i) a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 16(1)(a), (c), (e) ac (f), 18(1)(c) ac 48(1)(c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**4**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**5**).

Mewn perthynas â Rhan 11, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel sy'n ofynnol gan adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Ymgynghorwyd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Ionawr 2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

# RHAN 1

## Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 167A yn Neddf Addysg 2002 gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40), adran 169. Diwygiwyd adran 167A(6)(b) gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25), Atodlen 1, paragraff 22(b), ac Atodlen 2. Diwygiwyd adran 210(7) gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, adran 21(3). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. *Gweler* adran 212(1) o Ddeddf Addysg 2002 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2006 p. 42. *Gweler* adran 206(1) am y diffiniad o "regulations".

(**4**) Diwygiwyd adrannau 16(1), 18(1) ac 48(1) gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, Atodlen 5, paragraff 8.

(**5**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, fel y'u darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2025.

## RHAN 2

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003

**2.** Yn Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003(**1**), yn yr Atodlen, ym mharagraff 1(1), yn y testun Cymraeg, yn lle "6(1)" rhodder "7(1)".

## RHAN 3

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003

**3.** Yn Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003(**2**), yn yr Atodlen, ym mharagraff 1A, hepgorer is-baragraff (a).

## RHAN 4

### Diwygio Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 o'r Atodlen—

(a) ym mharagraff 1, yn lle "specified provision of the Regulation", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "provision specified in subsection (1A)";

(b) ar ôl paragraff 1, mewnosoder—

"**1A.** Mae adran 10 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (1)—

"(1A) The provisions are Articles 3, 4(3), 6(2), 7, 8(1), 9, 10(1) to (3), 12 and 14(2) of Regulation (EC) No 1924/2006 of the European Parliament and of the

(**1**) O.S. 2003/3227 (Cy. 308), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2003/3246 (Cy. 321), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/316 (Cy. 56); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2007/2611 (Cy. 222), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/1045 (Cy. 173); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Council of 20 December 2006 on nutrition and health claims made on foods(1).””

(3) Yn Rhan 2 o’r Atodlen, ym mharagraff 2—

(a) yn lle “a specified provision of the Regulation”, yn y lle cyntaf y mae’n digwydd, rhodder “any of Articles 3, 4(3), 6(2), 7, 8(1), 9, 10(1) to (3), 12 and 14(2) of Regulation (EC) No 1924/2006 of the European Parliament and of the Council of 20 December 2006 on nutrition and health claims made on foods”;

(b) yn lle “a specified provision of the Regulation”, yn yr ail le y mae’n digwydd, rhodder “any of the provisions specified in paragraph (a)”.

(4) Yn Rhan 3 o’r Atodlen, ym mharagraff 3—

(a) yn lle “(1A)” rhodder “(1)”;

(b) yn lle “(1B)” rhodder “(1A)”.

(5) Yn Rhan 4 o’r Atodlen, ym mharagraff 5, yn lle “unauthorised” rhodder “authorised”.

# RHAN 5

## Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011

**5.** Yn Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011(**2**), yn rheoliad 9, ym mharagraff (1)(a)—

(a) yn y geiriau o flaen paragraff (i), yn lle “yn unol â pharagraff” rhodder “yn unol ag is-baragraff”;

(b) ym mharagraff (ii), yn lle “is-baragraff” rhodder “baragraff”.

# RHAN 6

## Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015

**6.** Yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015(**3**), yn Atodlen 2, ym mharagraff 40, yn y testun Cymraeg, yn lle

(**1**) EUR 1924/2006; yr offerynnau diwygio perthnasol yw Rheoliad (EC) Rhif 107/2008, Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 ac O.S. 2019/651.

(**2**) O.S. 2011/656 (Cy. 94), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/339 (Cy. 63); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2015/1844 (Cy. 272), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/67 (Cy. 12) ac O.S. 2023/424; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

“Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol” rhodder “Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net”.

## RHAN 7

### Diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

**7.** Yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021(**1**), yn Atodlen 1A, ym mharagraff 1, yn y testun Cymraeg, yn lle “ddeiliad” rhodder “feddiannydd”.

## RHAN 8

### Diwygio Rheoliadau’r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023

**8.** Yn Rheoliadau’r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023(**2**), yn rheoliad 8(2)(a), yn y testun Cymraeg, ar ôl “mynd iddynt”, mewnosoder “wrth gyflawni’r swyddogaeth y gellir codi tâl amdani”.

## RHAN 9

### Diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024

**9.** Yn Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024(**3**), yn rheoliad 1(2), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

> “mae i “awdurdod priodol” yr ystyr a roddir i “appropriate authority” gan adran 167A(6)(b) o Ddeddf 2002(**4**);”.

(**1**) O.S. 2021/77 (Cy. 20), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/1393 (Cy. 247); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2023/1303 (Cy. 233).

(**3**) O.S. 2024/28 (Cy. 11).

(**4**) Mewnosodwyd adran 167A yn Neddf Addysg 2002 gan adran 169 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Diwygiwyd adran 167A(6)(b) gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008, Atodlen 1, paragraff 22(b), ac Atodlen 2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 10

## Diwygio Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024

**10.** Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**11.** Yn rheoliad 2—

(a) yn lle'r diffiniad o "corff gwasanaeth iechyd" rhodder—

"ystyr "corff gwasanaeth iechyd" ("*health service body*") yw—

(a) GIG Lloegr fel y'i sefydlwyd gan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**2**),

(b) y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal fel y'i sefydlwyd gan adran 232 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012(**3**),

(c) yr Awdurdod Ymchwil Iechyd fel y'i sefydlwyd gan adran 109 o Ddeddf Gofal 2014(**4**),

(d) unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig sydd wedi ei sefydlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**5**) neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o'r Ddeddf(**6**),

(e) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol,

(f) unrhyw Ymddiriedolaeth y GIG sydd wedi ei sefydlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 18 o'r Ddeddf, neu

(g) unrhyw Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG sydd wedi ei awdurdodi o dan

---

(**1**) O.S. 2024/135 (Cy. 29).

(**2**) 2006 p. 41. Mewnosodwyd adran 1H yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 gan adran 9(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7). Diwygiwyd adran 1H gan adran 37 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31) a pharagraff 1(1) o Atodlen 1 iddi, a pharagraff 87 o Atodlen 4 iddi.

(**3**) 2012 p. 7.

(**4**) 2014 p. 23.

(**5**) Diwygiwyd adran 28 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, Atodlen 4, paragraff 13.

(**6**) Diwygiwyd adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, Atodlen 21, paragraff 18.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

adran 35 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**1**);";

(b) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "Bwrdd Gofal Integredig" ("*Integrated Care Board*") yw Bwrdd Gofal Integredig sydd wedi ei sefydlu gan GIG Lloegr o dan adran 14Z25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**2**);".

**12.** Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 4(5)—

(i) ym mharagraff (b), ar ôl "yn achos", mewnosoder "corff gwasanaeth iechyd sy'n";

(ii) ym mharagraff (c), ar ôl "yn achos", mewnosoder "corff gwasanaeth iechyd sy'n";

(b) ym mharagraff 6(1)(a), hepgorer "sydd wedi ei sefydlu o dan adran 11 o'r Ddeddf".

## RHAN 11

### Diwygio Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025

**13.**—(1) Mae Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn y testun Cymraeg, yn y diffiniad o "blawd", yn lle "ac mae'n cynnwys blawd", rhodder "ac mae'n cynnwys mâl".

(3) Yn Atodlen 2, yn y testun Cymraeg, yn y tabl, yn y cofnod ar gyfer "Cyfystyron", yn yr ail golofn, yn lle "Chalk" rhodder "Sialc".

(4) Yn Atodlen 3, yn y tabl—

(a) yn y testun Saesneg, yn y cofnod ar gyfer "Definition", yn yr ail golofn, hepgorer "essentially";

(b) yn y testun Cymraeg, yn y cofnod ar gyfer "Hydoddedd", yn yr ail golofn, yn lle "yn ôl pwysau" rhodder "pwysau yn ôl pwysau".

---

(**1**) Diwygiwyd adran 35 gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28), Atodlen 18, Rhan 18, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14), Atodlen 5, paragraff 83, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, adrannau 151(9)(a), 159(3) a (5), a 160(2), a Deddf Iechyd a Gofal 2022, adran 58(3) ac Atodlen 5, paragraff 12.

(**2**) Mewnosodwyd adran 14Z25 yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 gan adran 19(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022.

(**3**) O.S. 2025/88 (Cy. 22).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Eluned Morgan*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
6 Gorffennaf 2025